The Planning Inspectorate
Yr Arolygiaeth Gynllunio

3D Eagle Wing
Temple Quay House
2 The Square
Bristol, BS1 6PN

Gwasanaeth 0303 444 5000
e-bost: GlynRhonwy@pins.gsi.gov.uk

At bartïon a buddiant

Eich Cyf:

Ein Cyf: EN010072

Dyddiad: 20 Gorffennaf 2016

Annwyl Syr/Fadam

Deddf Cynllunio 2008 (fel y'i diwygiwyd) a Rheoliadau Cynllunio Seilwaith (Gweithdrefn Archwilio) 2010 (fel y'u diwygiwyd)[1] – Rheol 17

Cais gan Snowdonia Pumped Hydro Limited am Orchymyn yn rhoi Caniatâd Datblygu ar gyfer Cynllun Storfa Bwmp Glyn Rhonwy

Hysbysiad o benderfyniad gweithdrefnol a chais am ragor o wybodaeth

Yn unol â'r amserlen archwilio, rwyf bellach wedi cyhoeddi'r Adroddiad ar Oblygiadau ar gyfer Safleoedd Ewrop (RIES) a Gorchymyn Caniatâd Datblygu drafft. Gellir dod o hyd i'r rhain ar ein gwefan:

https://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/projects/Wales/Glyn-Rhonwy-Pumped-Storage/

Dylwn bwysleisio, ar y pwynt hwn yn yr achos, nad wyf wedi cyrraedd unrhyw farn o ran a ddylid argymell y cais am gymeradwyo neu wrthod. Pwrpas yr ymholiadau a'r sylwadau drwy gydol Gorchymyn Caniatâd Datblygu drafft yr Awdurdod Archwilio yw sicrhau y caiff y Gorchymyn drafft ei fireinio cyn belled ag sy'n ymarferol cyn paratoi fy adroddiad, asesiad ac argymhelliad i'r Awdurdod Archwilio. Mae'n rhaid i Orchymyn Caniatâd Datblygu drafft fynd gyda'm hadroddiad, ta waeth am a fyddaf yn argymell y caiff y Gorchymyn ei wneud neu beidio. Mae hyn er mwyn sicrhau, p'un ai a fyddaf yn argymell cymeradwyo neu beidio, os bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn penderfynu gwneud y Gorchymyn, ei fod yn ddigon cadarn a manwl gywir er mwyn rheoleiddio a rheoli'r datblygiad.

Mae'n rhaid derbyn sylwadau ar Orchymyn Caniatâd Datblygu drafft yr Awdurdod Archwilio ar neu cyn **hanner dydd, ddydd Mercher 10 Awst 2016**.

[1] http://www.legislation.gov.uk/uksi/2010/103/contents/made

Cais am ragor o wybodaeth

Yn ogystal â'r ymholiadau a'r sylwadau yng Ngorchymyn Caniatâd Datblygu drafft yr Awdurdod Archwilio, rwyf hefyd wedi penderfynu dosbarthu cais am ragor o wybodaeth ar ffurf cwestiynau.

Caiff fy nghwestiynau eu gofyn er mwyn ceisio rhagor o wybodaeth neu eglurhad ar y mater a godir. Rwy'n ceisio sicrhau bod digon o dystiolaeth i gynnal argymhelliad sydd wedi'i resymu'n gadarn. Gellir dod o hyd i'r cwestiynau hyn ar ein gwefan:

Link to R17 questions

Mae'n rhaid derbyn ymatebion i'r cwestiynau hyn ar neu cyn **hanner dydd, ddydd Mercher 10 Awst 2016**.

Yn gywir

Stuart Cowperthwaite

Stuart Cowperthwaite
Awdurdod Archwilio

Gellir rhoi cyngor ar wneud cais am orchymyn yn rhoi caniatâd datblygu neu wneud sylwadau ynglŷn â chais (neu gais arfaethedig). Fodd bynnag, nid yw'r cyfathrebiad hwn yn gyfwerth â chyngor cyfreithiol y gallwch ddibynnu arno a dylech geisio eich cyngor cyfreithiol a'ch cyngor proffesiynol eich hun fel y bo'r angen.

Bydd cofnod o'r cyngor a roddir yn cael ei gofnodi ar y wefan Cynllunio Seilwaith Cenedlaethol ynghyd ag enw'r unigolyn neu'r sefydliad a ofynnodd am y cyngor. Bydd preifatrwydd unrhyw wybodaeth bersonol arall yn cael ei ddiogelu yn unol â'n Siarter Wybodaeth y dylech ei darllen cyn anfon gwybodaeth i'r Arolygiaeth Gynllunio.